Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Penparc**
**Penparc**
**Aberteifi**
**Ceredigion**
**SA43 1SG**
**United Kingdom**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Penparc wedi ei lleoli ar y briffordd rhwng Aberteifi ac Aberystwyth yng Ngheredigion. Fe ddaw'r disgyblion o'r pentref ei hun, o dref Aberteifi ac o'r ardal wledig gyfagos.

Ar hyn o bryd mae 112 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed ar gofrestr yr ysgol ac fe'u derbynnir yn llawn-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae pum dosbarth yn yr ysgol, gyda thair dosbarth â disgyblion o oedrannau gwahanol.

Tua 3.5% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 30% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r canran cenedlaethol. Daw 67% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Penparc yn 2014-2015 yw £3,124. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,697 a'r lleiafswm yw £3,038. Mae Ysgol Penparc yn safle 50 o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod safonau a chynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyson, ac yn briodol i'w hoed a'u gallu, mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith;
- bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd;
- bod disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i safon uchel, yn enwedig yn y Gymraeg, ar gyfer ystod o bwrpasau ar draws y cwricwlwm erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhugl mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol;
- bod y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu; a
- bod safonau ymddygiad bron pob disgybl yn ardderchog.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir a bod yr holl staff yn gweithio'n llwyddiannus a brwdfrydig fel tîm;
- bod y llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn effeithiol fel ffrindiau beirniadol;
- bod gan yr arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella; a
- bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid er lles a datblygiad y disgyblion.

## Argymhellion

A1 Codi canran y disgyblion sy'n cyrraedd y deilliannau a'r lefelau uwch ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau bod targedau yn y cynllun gwella yn fesuriadwy, lle bo'n briodol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith, mae safonau a chynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyson a phriodol i'w hoed a'u gallu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Maent yn gwrando'n ofalus ar oedolion a'i gilydd, ac yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Maent yn cyfathrebu'n hyderus gan droi'n naturiol ar lafar i ddefnyddio geirfa eang a chyfoethog. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n frwdfrydig mewn gweithgareddau dosbarth gan ddefnyddio geirfa gynyddol, a hynny mewn modd clir a chywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynegi eu barn, a'u syniadau'n hyderus ar lafar. Maent yn siarad yn glir ac yn estynedig am eu gwaith, gan ddefnyddio iaith naturiol raenus mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr da, ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen maent yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant clir. Mae llawer yn medru trafod agweddau o lyfr yn briodol er mwyn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau cywain gwybodaeth yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth benodol o lyfr neu'r we. Maent yn deall y testun yn dda ac yn barod iawn i fynegi barn amdano.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn dda gan ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol ar draws y meysydd dysgu. Gall llawer o ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig gan atalnodi eu gwaith yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau gan gyfleu eu syniadau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn atalnodi'n gywir ac yn defnyddio geirfa ehangach yn y ddwy iaith i gyfoethogi eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig i safon uchel, yn enwedig yn y Gymraeg, ar gyfer ystod o bwrpasau ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion afael gadarn ar y Gymraeg, ac mae hyfedredd llafar y disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n effeithiol yn fuan iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhugl mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn nodwedd gref drwy'r ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, mae bron pob

disgybl yn gallu dosbarthu a threfnu gwrthrychau yn gywir ac mae cynnydd da i'w weld o ran cyrhaeddiad y disgyblion mewn datblygiad rhif. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol. Yng nghyfnod allweddol 2, gall llawer o’r disgyblion ddefnyddio eu medrau yn llwyddiannus i ddatrys problemau o fewn meysydd fel hanes a daearyddiaeth. Mae ganddynt afael sicr ar rif a mesur a dônt yn fwyfwy hyderus wth drin data gan greu graffiau manwl a chywir.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o’i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn yr 50% uwch mewn llythrennedd ac yn y 50% is mewn datblygiad mathemategol. Yn gyffredinol, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar y deilliant uwch (deilliant 6) yn amrywio rhwng y 25% isaf neu’r 50% is ym mhob maes dysgu, oni bai am ddatblygiad mathemategol yn 2013 ble gwelir perfformiad yn y 50% uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2013, roedd ei pherfformiad ar gyfer y dangosydd pynciau craidd, a’r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf. Roedd ei pherfformiad yn y Gymraeg yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf. Yn 2014, mae’r perfformiad yn gosod yr ysgol o fewn y 25% is ym mhob pwnc craidd.

Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch (lefel 5) yn y Gymraeg yn ei gosod yn y 25% uchaf. Heblaw am hynny, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar y lefel uwch wedi bod rhwng y 50% is neu’r 25% isaf ar draws pob maes dysgu.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o’u cymharu â’u cyfoedion. Yn ogystal, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o’u cymharu â merched dros gyfnod o amser.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n dda ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu.

**Lles: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus lle mae’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel. Mae gan y rhan fwyaf o’r disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at gadw’n iach a dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd ymarfer corff a bwyta’n iach. Mae llawer o’r disgyblion yn mwynhau’r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff ac yn mynychu clybiau coginio a chwaraeon yr ysgol.

Mae safonau ymddygiad bron pob disgybl yn yr ysgol yn ardderchog ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at staff ac ymwelwyr. Yn y gwersi, maent yn weithgar a brwdfrydig ac yn gweithio’n gytûn. Mae’r rhan fwyaf yn cadw ar dasgau am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu’n effeithiol wrth wneud penderfyniadau am agweddau o’u dysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn chwarae rhan lawn ym mywyd y gymuned. Maent yn cymryd rhan mewn cyngherddau ac yn codi arian at elusennau amrywiol. Mae’r gweithgareddau hyn yn cryfhau eu hymglymiad i’w hardal ac yn cyfrannu’n werthfawr tuag at eu datblygiad personol.

Mae llawer o’r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol. Gwna’r cyngor ysgol a’r cyngor eco gyfraniad arwyddocaol i weithgareddau amrywiol. Trwy eu hymdrechion, maent wedi cyfrannu’n effeithiol tuag at wella amgylchedd yr ysgol a materion cynaliadwyedd.

Mae canran presenoldeb disgyblion yn gyson uchel, ac wedi gosod yr ysgol o fewn y 25% uchaf neu’r 50% uwch o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu profiadau dysgu amrywiol sy’n ennyn diddordeb ac yn ateb gofynion disgyblion o bob oed. Darperir profiadau cyfoethog ac ysgogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiol sefyllfaoedd oddi mewn a thu allan i’r dosbarth. Mae’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu’n effeithiol ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae’r ysgol wedi ymgorffori’r fframweithiau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol yn eu cynlluniau tymhorol. Mae’r cynllunio yn fuddiol ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn caffael medrau llythrennedd gan arwain at safonau cyflawniad da. Darperir cyfleoedd bwriadus ar draws y cwricwlwm sy’n galluogi’r disgyblion i ysgrifennu’n bwrpasol ar gyfer gwahanol ddibenion. Mae’r amrywiaeth o ymweliadau â mannau diddorol yn gysylltiedig â’r themâu tymhorol yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn dda.

Mae’r amrediad o gyfleoedd, fel ymweliadau gan arlunwyr a beirdd o Gymru, dathliadau, cystadlaethau’r Urdd a pherfformiadau yn sicrhau bod yr ysgol yn cynnal ei hethos Cymreig. Mae hyn yn cryfhau gwybodaeth disgyblion am Gymru a’i thraddodiadau yn llwyddiannus.

Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn cael ei datblygu’n effeithiol trwy weithgareddau diddorol ar draws y cwricwlwm. Mae’r pwyllgor eco yn weithredol wrth hybu materion fel ailgylchu ac arbed ynni. Trwy brosiect rhyngwladol, mae’r ysgol yn cyfathrebu’n effeithiol ag ysgolion yn Sweden, Denmarc, Iwerddon a Ffrainc. O ganlyniad i hyn, mae’r disgyblion yn magu dealltwriaeth dda o fywyd plant mewn gwledydd tramor.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon a’r staff cynorthwyol yn modelu iaith safonol ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gryfhau iaith lafar y disgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion fel unigolion ac yn hybu ymddygiad da. Mae’r athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol sy'n sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n llwyddiannus at ansawdd dysgu'r disgyblion.

Yn yr addysgu mwyaf effeithiol, mae cyflymder da i'r gwersi, holi medrus, a chyfeiriad at ddysgu blaenorol sy'n hybu dilyniant da yn y dysgu. Yn yr ychydig o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae rhediad y wers yn araf ac nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ymestyn disgyblion o bob gallu.

Mae'r athrawon yn rhannu nodau addysgol yn gyson gyda'r disgyblion ac mae'r disgyblion hŷn yn dechrau gosod nodau dysgu priodol eu hunain. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol, ond nid ydynt eto wedi gwreiddio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau buddiol ar ddiwedd y gwaith. Maent yn cynnig adborth llafar effeithiol o fewn gwersi. Lle mae'r marcio yn fwyaf effeithiol, mae'r sylwadau yn cyfeirio at feini prawf llwyddiant y wers, ac yn galluogi disgyblion i wybod beth i'w wneud i wella safon eu gwaith. Mae cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn briodol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth athrawon.

Mae gan bob disgybl dargedau gwella ac mae'r staff yn monitro'r rhain yn gyson. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus wrth lywio'u gwaith cynllunio ac i dargedu disgyblion ar gyfer rhaglenni ymyrraeth effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r gweithdrefnau ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau athrawon o waith disgyblion yn addas.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac eraill. Mae lefel uchel y gofal a'r cydweithio rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda iawn at les holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn hyrwyddo ffitrwydd y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cyfle a roddir i'r disgyblion fyfyrio'n dawel mewn gwasanaethau yn eu galluogi i ystyried anghenion eraill yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau arbenigol yn dda, ac yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cael cymorth proffesiynol pan fo'r angen. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae gweithdrefnau effeithiol yn galluogi'r ysgol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Trwy gyflwyno rhaglenni ymyrraeth effeithiol, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth drylwyr i'r disgyblion. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn gosod targedau clir a phenodol ac yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion. Maent yn seiliedig ar fewnbwn priodol gan y disgybl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr ysgol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos Cymreig cynhaliol yn treiddio trwy holl fywyd a gwaith yr ysgol, gyda disgyblion a'r rhieni yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o gymuned.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol drwy weithdrefnau gwahanol, fel casglu arian tuag at elusennau, a thrafod bywyd, chredoau a diwylliant pobl eraill ar draws y byd.

Mae’r adeiladau yn darparu amgylchedd braf i ddisgyblion ddysgu, gyda'r ardaloedd mewnol yn cynnwys arddangosfeydd deniadol. Mae ardaloedd awyr agored eang yn darparu amgylchedd diddorol ac ysgogol i ddisgyblion. Maent yn cynnwys cyfleusterau amrywiol ar gyfer chwaraeon, gydag ystod dda o offer chwarae. Mae adnoddau addas yn cyfoethogi profiadau dysgu yn dda ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Gwneir defnydd priodol o’r nifer helaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd da yn y dosbarthiadau. Serch hynny, mae ychydig o lyfrau darllen wedi dyddio ac, o ganlyniad, maent yn llai deniadol i ddisgyblion eu defnyddio.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mewn amser byr, mae’r pennaeth wedi cyfleu ei gweledigaeth yn glir i’r staff, rhieni a’r disgyblion. Mae wedi sicrhau bod arwyddair yr ysgol sef, ‘Gyda’n gilydd agorwn ddrysau llwyddiant’, yn treiddio i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn creu ethos lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae pob aelod o’r staff yn deall ei rôl wrth weithredu cynlluniau’r ysgol. Mae’r pennaeth cynorthwyol yn ysgwyddo ystod o gyfrifoldebau rheolaethol yn effeithiol. Mae’r holl staff yn gweithio’n llwyddiannus a brwdfrydig fel tîm. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i werthuso ac i gynllunio i wella darpariaeth a safonau.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol yn effeithiol. Mae gan lywodraethwyr wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o’r heriau a wynebir. Maent yn mynychu hyfforddiant ac yn arfarnu data perfformiad ac adroddiadau yn drwyadl, gan ddefnyddio’r wybodaeth i herio’r ysgol yn gadarn fel ffrindiau beirniadol.

Rhoddir sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a’r Cyfnod Sylfaen. Mae’r ysgol yn cydweithio effeithiol ag ysgolion lleol, er enghraifft wrth ddatblygu gweithdrefnau pontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi eu sefydlu’n bwrpasol. Mae hyn yn cynnwys amserlen glir ar gyfer arsylwi gwersi ac ar graffu ar waith disgyblion. Mae’r adroddiadau arfarnu gorau yn dangos yn glir y mannau sydd angen sylw ac mae’r arweinwyr yn gweithredu arnynt yn effeithiol. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr, ond nid yw bob amser yn ddigon arfarnol.

Mae'r arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn talu sylw da i ddadansoddiadau data er mwyn pennu blaenoriaethau. Maent yn gofyn barn rhieni, gan rannu'r canfyddiadau, a'u defnyddio'n bwrpasol yn y broses hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth resymol i adroddiadau gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol eraill. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r cyfleoedd ar gyfer gwella.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio arfarniad o'r cynllun gwella ysgol flaenorol yn effeithiol er mwyn llywio'r cynllun presennol. Mae'r prif flaenoriaethau yn canolbwyntio'n briodol ar wella cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys meini prawf llwyddiant priodol o fewn terfynau amser penodol ar gyfer cwblhau'r tasgau. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon meintiol bob tro.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid. Mae partneriaeth gadarn gan yr ysgol â rhieni a'r gymuned leol. Mae'r rhain yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn ymestyn eu hymwybyddiaeth am fyd gwaith drwy, er enghraifft, ymweld â ffermydd cyfagos a gwrando ar ymwelwyr.

Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, fel eu cyngherddau a'u gwasanaethau mewn addoldai lleol, yn cyfoethogi eu profiadau dysgu yn dda. Mae ychydig o'r disgyblion hŷn yn cynorthwyo aelodau o'r gymuned i gefnogi elusennau.

Mae'r bartneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin, sydd wedi ei leoli ar safle'r ysgol, yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth derbyn. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus â'r ysgol uwchradd ac mae trefniadau pontio effeithiol iawn, sy'n cynnwys ymweliadau a gweithio ar brosiectau pontio. O ganlyniad, mae trosglwyddo a dilyniant esmwyth i ddisgyblion ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion y dalgylch drwy weithgareddau safoni a chymedroli asesiadau athrawon. Mae'r cydweithio hwn wedi cynorthwyo athrawon yn dda i gynllunio ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r disgwyliadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol sy'n sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn cael mynediad llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff ac mae cynorthwywyr yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn dda. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn briodol. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli eu hadnoddau'n addas.  Mae hyn yn sicrhau cyflenwad priodol o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion.  Maent yn gwneud penderfyniadau cyllidebol yn ôl anghenion a blaenoriaethau'r ysgol yn briodol.  Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae tanwariant wedi arwain at symiau cymharol uchel o arian wrth gefn.  Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi cychwyn ar leihau’r tanwariant hwn i lefel briodol.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o’r grant amddifadedd.  O ystyried y deilliannau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672324 - YSGOL GYMUNEDOL PENPARC**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 113 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 16 | 15 | 25 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 62.5 | 93.3 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 15 | 25 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 62.5 | 100.0 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 18.8 | 13.3 | 36.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 15 | 25 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 68.8 | 100.0 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.5 | 33.3 | 28.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 15 | 25 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 62.5 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 40.0 | 36.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672324 - YSGOL GYMUNEDOL PENPARC**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 113 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 19 | 17 | 12 | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 94.7 | 88.2 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 17 | 12 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 94.7 | 88.2 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 21.1 | 35.3 | 41.7 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 17 | 12 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 89.5 | 82.4 | 91.7 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 15.8 | 23.5 | 50.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 17 | 12 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 94.7 | 94.1 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 21.1 | 23.5 | 25.0 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 17 | 12 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 94.7 | 88.2 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 36.8 | 29.4 | 33.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 53 | 52<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 54 | 54<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 54 | 54<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 54 | 54<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 54 | 54<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 51 | 50<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 54 | 54<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 54 | 54<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 54 | 54<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 54 | 54<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 54 | 53<br>98%<br>77% | 1<br>2%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 54 | 52<br>96%<br>84% | 2<br>4%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 34 | 23 | 11 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 34 | 23 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 34 | 23 | 9 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 68% | 26% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 34 | 23 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 34 | 18 | 14 | 2 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 53% | 41% | 6% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 34 | 22 | 10 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 65% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 34 | 24 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 34 | 15 | 15 | 2 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 44% | 6% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 33 | 21 | 9 | 3 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 64% | 27% | 9% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 34 | 18 | 15 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 53% | 44% | 3% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 34 | 17 | 16 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 50% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 32 | 15 | 14 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 47% | 44% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 34 | 12 | 19 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 35% | 56% | 6% | 3% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 34 | 15<br>44% | 15<br>44% | 2<br>6% | 1<br>3% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 34 | 12<br>35% | 14<br>41% | 3<br>9% | 0<br>0% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 34 | 15<br>44% | 17<br>50% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 24 | 8<br>33% | 8<br>33% | 1<br>4% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 33 | 16<br>48% | 15<br>45% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 34 | 22<br>65% | 10<br>29% | 2<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anthony Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Llinos Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catrin Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.